**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn ar gyfer y Gweinidog Newid Hinsawdd gan y Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024.

**Julie James**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**

23 Chwefror 2024

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau (“ETS”) y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 (“y prif Orchymyn”) fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, fydd yn ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Cafodd ei ddylunio ar y cyd gan Lywodraethau'r DU, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr i leihau allyriadau yng Nghymru.

1.2 Wrth i'r cynllun aeddfedu, mae Awdurdod ETS y DU (“yr Awdurdod”) wedi bod yn ceisio gwella sut mae'n gweithredu. Ym mis Rhagfyr 2023, agorodd yr Awdurdod ymgynghoriad 12 wythnos o'r enw “Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim”, sy'n edrych ar opsiynau i dargedu'n well y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon ac i sicrhau bod y Dyraniad Am Ddim (“FA”) o lwfansau sy'n cwmpasu allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael ei ddosbarthu'n deg.

1.3 O dan y ddeddfwriaeth bresennol, y cyfnod ymgeisio nesaf ar gyfer yr FA yw 1 Ebrill – 30 Mehefin 2024. Mae'r un cyfnod ymgeisio hefyd yn gymwys i geisiadau Allyrrydd Bach Ysbyty (HSE) ac Allyrrydd Bach Iawn (USE) a dyma'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i weithredwyr gweithfeydd nad ydynt yn gwneud cais am FA ddarparu gwybodaeth i'r Awdurdod.

1.4 Fodd bynnag, mae'r amserlen sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad yn golygu na fyddai'r safbwynt polisi terfynol yn glir cyn i'r cyfnod uchod ddod i ben. Felly, ni fyddai gan gyfranogwyr sicrwydd o'u cymhwystra ar gyfer FAs, na'r wybodaeth briodol i'w chynnwys mewn ceisiadau, gan ei gwneud yn anymarferol iddynt wneud cais yn ystod y cyfnod hwnnw.

1.5 Felly, mae'r Gorchymyn hwn yn ceisio symud cyfnod ymgeisio'r FA i 1 Ebrill – 30 Mehefin 2025. Mae hefyd yn symud nifer o derfynau amser cysylltiedig eraill i ddarparu ar gyfer yr amserlen newydd.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae Rhan 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (“CCA”) yn nodi bod rhaid sefydlu cynllun masnachu allyriadau sy’n gymwys i Gymru,

Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – fel yn yr achos hwn – drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

2.2 Rhagnodir y weithdrefn ar gyfer gwneud Gorchymyn o'r fath yn y Cyfrin Gyngor gan adran 48 o'r CCA.

2.3 Gan nad yw Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024 yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau a ddaw o dan adran 48(3) o'r CCA, y weithdrefn negyddol sy'n gymwys iddo.

2.4 Gan mai Senedd y DU fydd yn craffu ar y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ni fernir ei bod yn rhesymol ymarferol gwneud na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Cafodd ETS y DU ei sefydlu gan y Prif Offeryn i ddod yn weithredol o 1 Ionawr 2021. Mae'n para am ddeng mlynedd wedi'i rannu'n ddau "gyfnod dyrannu" pum mlynedd. Mae'r cynllun yn gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gweithfeydd diwydiannol ynni-ddwys, cynhyrchwyr pŵer a gweithredwyr awyrennau fonitro, adrodd ar ac ildio "lwfansau" sy'n cyfateb i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Mae rhai cyfranogwyr yn cael dyraniad lwfansau am ddim, a chyhoeddir manylion amdanynt mewn tablau dyraniadau.

3.2 Bu sawl diwygiad i'r prif Orchymyn i roi effaith i newidiadau technegol sy'n gwella'r modd y mae ETS y DU yn gweithredu ar gyfer cyfranogwyr a rheoleiddwyr. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y Gorchmynion canlynol yn y Cyfrin Gyngor: Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023, a Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023.

3.3 Gwnaed y prif Orchymyn a'r Gorchmynion diwygio hyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 44 o'r CCA. Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024 hefyd yn cael ei wneud o dan y pŵer hwnnw.

3.4 Fel y nodwyd uchod, mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024 yn cael ei wneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

3.5 Gwnaed diwygiadau hefyd i ETS y DU o dan Ddeddf Cyllid 2020. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn: Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau

Nwyon Tŷ Gwydr a Phlatfformau Arwerthu Cydnabyddedig (Diwygio) 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2021, a Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024 yw diwygio'r prif Orchymyn a’r ddeddfwriaeth gysylltiedig er mwyn:

- 4.1.1 Symud cyfnod ymgeisio'r FA ar gyfer gweithredwyr presennol y prif gynllun o 1 Ebrill – 30 Mehefin 2024 i 1 Ebrill – 30 Mehefin 2025.
- 4.1.2 Gwneud yr un newid i'r llinell amser o ran y ceisiadau am statws HSE ac USE.
- 4.1.3 Gwneud newidiadau canlyniadol i amserlenni ar gyfer prosesu ceisiadau, ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng yr Awdurdod a'r rheoleiddwyr, ac ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau gan yr Awdurdod sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau FA.

4.2 Rhychwant tiriogaethol y Gorchymyn hwn yw'r Deyrnas Unedig.

4.3 Mae'r prif newidiadau wedi'u crynhoi isod:

*Newidiadau i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020*

4.4 Mae **Erthygl 5** o'r Gorchymyn diwygio yn newid ystyr gweithfa FA (“FA installation”) i bennu o ba ddyddiad y gall gweithfa ddod yn weithfa FA o ganlyniad i gais am yr un peth (1 Ionawr 2026) ac mae'n nodi'r amgylchiadau pan na fyddai hyn yn gymwys, megis pan fo rheoleiddiwr yn ystyried nad yw cais yn ddilys.

4.5 Mae **Erthygl 6** o'r Gorchymyn diwygio yn newid y flwyddyn pan fydd yn rhaid i weithredwyr gweithfeydd nad ydynt yn gwneud ceisiadau am ddyraniad am ddim gyflwyno gwybodaeth arall, o 2024 i 2025.

4.6 Mae **Erthygl 7** o'r Gorchymyn diwygio yn newid y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyhoeddi'r tabl dyraniadau ar gyfer cyfnod dyrannu 2026-2030, o 1 Ionawr 2026 i 28 Chwefror 2026.

4.7 Mae **Erthyglau 8 a 9** yn diwygio Atodlenni 7 ac 8 yn y drefn honno i'r prif Orchymyn, er mwyn i'r cyfnod ymgeisio am statws HSE ac USE ar gyfer cyfnod dyrannu 2026-2030 fod yn 1 Ebrill 2025-30 Mehefin 2025. Maent hefyd yn darparu bod yn rhaid i'r rheoleiddiwr asesu'r cais cyn 31 Awst 2025 a bod yn rhaid i Awdurdod ETS y DU gyhoeddi'r rhestr o HSE ac USEs cyn 17 Hydref 2025.

4.8 Yn ogystal, mae **Erthygl 8** yn nodi llinellau amser diwygiedig mewn perthynas â thasgau gweinyddol penodol y mae angen i reoleiddwyr eu cyflawni pan ddaw statws HSE i ben, yng ngoleuni'r newidiadau eraill o ran llinell amser a grybwyllir uchod.

*Newidiadau i'r Rheoliad ar Ddyraniadau am Ddim (FAR) fel y mae'n gymwys i gyfraith ddomestig*

4.9 Mae **Erthyglau 11 a 12** o'r Gorchymyn diwygio yn symud cyfnod ymgeisio'r FA o 1 Ebrill – 30 Mehefin 2024 i 1 Ebrill – 30 Mehefin 2025. Bydd hyn yn gymwys i weithredwyr presennol a hefyd newydd-ddyfodiaid i'r cynllun.

4.10 Mae **Erthygl 13** o'r Gorchymyn diwygio yn diwygio'r dyddiad cau i'r rheoleiddiwr ddarparu gwybodaeth am geisiadau FA i'r Awdurdod i 30 Medi 2025.

4.11 Mae **Erthygl 14** o'r Gorchymyn diwygio yn darparu bod yn rhaid i reoleiddwyr anfon y nifer rhagarweiniol o lwfansau am ddim a gyfrifir ar gyfer pob gweithfa i'r Awdurdod, cyn gynted â phosibl ar ôl i'r meincnodau gael eu pennu. Pan fydd y meincnodau'n cael eu gohirio y tu hwnt i 31 Ionawr 2026, mae'n ofynnol i reoleiddwyr anfon y cyfrifiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 31 Ionawr 2026.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cyn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 44 o'r CCA, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau, ac ystyried cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd (adran 48(1)(a) CCA). Mae hefyd yn ofynnol iddynt ymgynghori â'r personau hynny yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth ddrafft ag y maent yn ystyried eu bod yn briodol (adran 48(1)(b) CCA).

5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad penodol gyda rhanddeiliaid perthnasol rhwng 14 Tachwedd 2023 a 28 Tachwedd 2023, o ystyried cwmpas cyfyngedig y newid. Cafodd Ymateb y Llywodraeth i hyn ei gyfleu i ymatebwyr ar 05 Chwefror 2024. Mae copi ar gael ar gais.

5.3 Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd ac mae wedi nodi ei fod yn fodlon i'r ddeddfwriaeth hon gael ei datblygu.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Er bod mân newidiadau yn y Gorchymyn hwn i linellau amser y ddarpariaeth reoleiddio, nid yw'r diwygiadau'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Nid oes costau nac arbedion i'r sectorau cyhoeddus, preifat, elusennol na gwirfoddol o ganlyniad i'r diwygiad, neu mae'r costau a'r arbedion hynny'n fach iawn. Nid angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol felly. Mae hyn yn cydymffurfio â'r

polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

6.2 Dylid nodi hefyd nad yw’r cynigion wedi newid lefel gyffredinol yr uchelgais o ran yr hinsawdd yn ETS y DU.

6.3 Er nad yw'n ofynnol gan bolisi'r Llywodraeth, cynhyrchwyd asesiad effaith rheoleiddiol o effaith ETS y DU ar gostau busnesau, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus ac mae ar gael ochr yn ochr â'r prif Orchymyn ar: Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 - Asesiad Effaith (legislation.gov.uk).